
# Y Rhyl
# Rhyl

llwybr y dref
town trail

sir ddinbych
denbighshire

## Darganfod Sir Ddinbych
## Discover Denbighshire




01978 860828

discoverdenbighshire.co.uk
northeastwales.co.uk
medieval-wales.com
clwydianrangeanddeevalleyaonb.org.uk

Darganfod Sir Ddinbych
Discover Denbighshire


Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council
NORTH EAST WALES – Denbighshire. Flintshire. Wrexham – Altogether brilliant
GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU – Sir Ddinbych. Sir y Fflint. Wrecsam – Gwych gyda'n gilydd


Ffotograffau / Photography
© Crown copyright (2014) Visit Wales / © Hawlfraint y Goron (2014) Croeso Cymru, White Fox, Laurence Crossman-Emms, Kevin Osborne, W Garrett, Flintshire Record Office / Archifdy Sir Y Fflint

dylunio/design White Fox 01352 840898 www.whitefox-design.co.uk


## Tref i bob diwrnod

Nid Rhyl yw'r unig dref yn Sir Ddinbych gyda llwybr ei hun. Mae saith llwybr arall – pob un yn llawn o ddiddordeb hanesyddol. Ond pob un yn wahanol iawn, gyda'r gobaith y byddwch yn darganfod hynny dros eich hunain. Cyn belled â bod gennych wythnos neu ddwy arall i'w sbario.

## A town for every day

Rhyl isn't the only town in Denbighshire with its very own trail. There are seven others – all packed with historic interest. But all very different, as we hope you'll discover for yourself. Just as long as you have another week or so to spare.

Ewch i Rhuthun i weld yr oriel celfyddydau cymhwysol gorau yng Nghymru, Llangollen am ei rheilffordd stêm estynedig newydd, Corwen i weld cofeb un o arwyr mwyaf Cymru a Dinbych am ei chastell ar ben y bryn a muriau tref atgofus.

Rhuthun Ruthin – llwybr y dref town trail – sir ddinbych denbighshire

Llangollen – llwybr y dref town trail – sir ddinbych denbighshire

Y Rhyl Rhyl – llwybr y dref town trail – sir ddinbych denbighshire

Prestatyn – llwybr y dref town trail – sir ddinbych denbighshire

Visit Ruthin for the best applied arts gallery in Wales, Llangollen for its newly extended steam railway, Corwen for a stirring memorial to Wales's greatest hero and Denbigh for its hilltop castle and evocative town walls.

Ewch i'r Rhyl ar gyfer ei phromenâd a thair milltir o dywod euraidd, Prestatyn ar gyfer dechrau Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa, Rhuddlan am ei chastell ar lan yr afon a Llanelwy i weld y gadeirlan hynafol leiaf ym Mhrydain.

Dinbych Denbigh – llwybr y dref town trail – sir ddinbych denbighshire

Corwen – llwybr y dref town trail – sir ddinbych denbighshire

Llanelwy St Asaph – llwybr y ddinas city trail – sir ddinbych denbighshire

Rhuddlan – llwybr y dref town trail – sir ddinbych denbighshire

Visit Rhyl for its promenade and three miles of golden sands, Prestatyn for the start of Offa's Dyke Path National Trail, Rhuddlan for its stupendous riverside castle and St Asaph for the smallest ancient cathedral in Britain.

## Eich antur yn Sir Ddinbych

Trefi marchnad llawn prysurdeb. Diwylliant Cymreig unigryw. Bwyd a diod blasus. Un o'r tirweddau gwarchodedig harddaf yng Nghymru.

Bydd y syniadau'n byrlymu ar gyfer pethau i'w gwneud yn Sir Ddinbych. Ond rhag ofn... dyma ychydig o anturiaethau y dylech roi cynnig arnynt – a gallwch eu llwytho i lawr yn syth i'ch ffôn symudol.

Gallwch eu lawr lwytho yn syth i'ch ffôn symudol o digidolsirddinbych.co.uk. Neu weld tu hwnt i'r byd ffisegol gydag ap realiti estynedig sy'n rhad ac am ddim.

Nid dim ond mwy o wybodaeth am eich lleoliad sydd ynddo – bydd yn eich tywys i'ch antur nesaf. Chwiliwch am ap "Discover Denbighshire" a dechrau yma yn y Rhyl.

Download on the App Store | GET IT ON Google play


Apple and the Apple logo are trademarks of Apple Inc., registered in the U.S. and other countries. App Store is a service mark of Apple Inc. Apple and the Apple logo are trademarks of Apple Inc., registered in the U.S. and other countries. App Store is a service mark of Apple Inc.

Google Play is a trademark of Google Inc.


## Your Denbighshire adventure

Bustling market towns. A unique Welsh culture. Delicious food and drink. One of the most beautiful protected landscapes in Wales.

You won't find yourself too short of ideas about what to do in Denbighshire. But just in case we've come up with a few adventures for you try.

Download them straight to your mobile at digitaldenbighshire.co.uk. Or see beyond the physical world with our free augmented reality app.


It won't just tell you more about where you are – it will point you towards your next discovery. Search for the "Discover Denbighshire" app and start right here in Rhyl.


Download on the App Store | GET IT ON Google play


Apple and the Apple logo are trademarks of Apple Inc., registered in the U.S. and other countries. App Store is a service mark of Apple Inc. Apple and the Apple logo are trademarks of Apple Inc., registered in the U.S. and other countries. App Store is a service mark of Apple Inc.

Google Play is a trademark of Google Inc.





## Darganfod Rhyl

Ychydig ganrifoedd yn ôl roedd y Rhyl yn bentref pysgota di-nod ar arfordir Gogledd Cymru gyda phoblogaeth o tua 300. Erbyn canol yr 1800au, diolch i'r rheilffordd, roedd yn un o'r trefi gwyliau mwyaf ffasiynol ym Mhrydain.

Efallai bod llawer wedi newid ers i'n hynafiad grwydro lawr y promenâd mewn hetiau crand neu grinolin. Ond bydd rhai pethau yn yr aros yr un fath o hyd. Y môr, y tywod a hinsawdd sy'n swyddogol yn fwy heulog na'r cyfartaledd cenedlaethol i ddechrau.

Gallwch weld nifer o elfennau o anterth y dref yn ystod y cyfnod Fictoraidd ac Edwardaidd ar y daith gerdded hon am ddwy awr. Byddwch yn clywed rhai straeon rhyfeddol am arloeswyr morol ac awyrennau. Ac yn ein harbwr sy'n 700 oed byddwch yn croesi pont o'r 21 ganrif.

## Exploring Rhyl

A couple of centuries ago Rhyl was an obscure fishing village on the North Wales coast with a population of about 300. By the mid-1800s, thanks to the coming of the railway, it was one of the most fashionable watering places in Britain.

A lot may have changed since our ancestors strolled down the promenade in top hats or crinolines. But some things will always be the same. The sea, the sand and a climate officially sunnier than the national average for a start.

You'll see many reminders of the town's Victorian and Edwardian heyday on this two-hour stroll. You'll hear some remarkable stories about maritime and aviation pioneers. And at our 700-year-old harbour you'll cross a very 21st century bridge.





## Beth sy'n ei wneud yn arbennig?

Mae'r Rhyl yn gyrchfan glan y môr â naws Prydeinig. Ers sawl cenhedlaeth mae'n gyrchfan perffaith pan fyddwch eisiau teimlo'r tywod rhwng bysedd eich traed, yr awel yn eich gwallt a hufen iâ mawr yn eich llaw.

Ni fyddem yn gweld bai arnoch pe baech eisiau llogi cadeiriau cynfas ac ymlacio ar y traeth – neu wlychu'ch traed ym mhwll padlo'r Parc Drifft.

Ond nid cyrchfan i fola heulo ac adeiladu cestyll tywod yw'r Rhyl yn unig. Mae'n gyrchfan i gerddwyr a beicwyr hefyd. A'r rheswm dros hynny yw bod dau lwybr rhagorol yn teithio drwy'r Rhyl: Llwybr 870 milltir Arfordir Cymru a Llwybr Beicio Cenedlaethol 5 sy'n 372 milltir.

Felly, dim ond y dechrau yw'r daith hon am ddwy filltir a hanner o amgylch atyniadau a synau y Rhyl.

## What makes it special?

Rhyl is the quintessential British seaside resort. For generations it's been the place to come if you fancy the sand between your toes, the breeze in your hair and a great big ice cream in your hand.

We wouldn't blame you if you just wanted to hire a deck chair and hit the beach – or dip your toes in the Drift Park's paddling pool.

But Rhyl's not just for sunbathers and sandcastle builders. There are lots of walkers and cyclists too. That's because two epic routes pass through here: the 870-mile Wales Coast Path and 372-mile National Cycle Route 5.

So this two-and-a-half mile tour of the sights and sounds of Rhyl is just for starters.

## Ble awn ni nesaf?

Dylai bod siopau, caffis, tafarndai, atyniadau glan y môr a thraeth tywodlyd eang y Rhyl yn fwy na digon i'ch cadw'n brysur. Ond os ydych chi'n penderfynu symud ymlaen, byddwch yn dod ar draws rhai o brif atyniadau Gogledd Cymru dim ond ychydig filltiroedd i ffwrdd.

## Where shall we go next?

Rhyl's shops, cafés, pubs, seaside attractions and wide sandy beach should be more than enough to keep you busy. But if you do decide to move on, you'll find some of the top destinations of North Wales just a few miles away.

### Castell Rhuddlan

Nid yn unig y bu i Edward I adeiladu Castell godidog Rhuddlan – dargyfeiriodd yr afon fel y gellid ei chyflenwi o'r môr.

cadw.wales.gov.uk 01443 336000



### Rhuddlan Castle

Edward I didn't just build magnificent Rhuddlan Castle – he diverted a river so it could be supplied by sea.

cadw.cymru.gov.uk 01443 336000

### Eglwys Gadeiriol Llanelwy

Mae hon nid yn unig yn eglwys gadeiriol hynafol leiaf Prydain, ond hefyd yn gartref i'r Beibl Cymraeg cyntaf erioed.

stasaph.churchinwales.org.uk 01745 582245



### St Asaph Cathedral


Not just Britain's smallest ancient cathedral but also the home of the very first Welsh language Bible.

stasaph.churchinwales.org.uk 01745 582245

### Eglwys Bodelwyddan

"Eglwys Farmor" drawiadol gyda thŵr 62 metr yn gampwaith diwygiad Gothig Fictoraidd.

themarblechurch.org.uk



### Bodelwyddan Church

Astonishing "Marble Church" with its 62-metre tower is a masterpiece of the Victorian Gothic Revival.

themarblechurch.org.uk

# Llwybr y dref | Town trail

| | |
|---|---|
| **Pellter** | 2.5 milltir / 4 km |
| **Pa mor anodd yw'r llwybr?** | Hawdd a gwastad |
| **Amser yn cerdded** | 2 awr |
| **Man cychwyn** | Maes parcio'r Tŵr Awyr, Rhodfa'r Gorllewin LL18 1HF |

**Cludiant cyhoeddus** Traveline Cymru 0871 200 2233, Ymholiadau Rheilffyrdd Cenedlaethol 08457 484950


| | |
|---|---|
| **Distance** | 2.5 miles / 4 km |
| **Difficulty** | Easy and flat |
| **Walking time** | 2 hours |
| **Start point** | Skytower car park, West Parade LL18 1HF |

**Public transport** Traveline Cymru 0871 200 2233, National Rail Enquiries 08457 484950

## 1 Little Venice

**Ewch tua'r dwyrain heibio'r sinema tuag at Y Pentref gyda'i reidiau, caffis a Chanolfan Groeso.**

Rhywle o dan yr adeiladau i'r dde ar Rodfa'r Gorllewin y mae dirgelwch mwyaf y Rhyl yn cuddio. Dyma safle'r hen "Queen's Palace" ers talwm gyda'i theatr fawr, cromen wydr, sw, rhodfa siopa, gardd do trofannol a neuadd ddawns oedd yn ddigon mawr ar gyfer 2,000 o gyplau. O dan hynny roedd islawr llawn dŵr neu, ag enw sydd ychydig yn fwy rhamantus "Little Venice" gyda gondolâu yn arnofio ar gamlesi – dan lyw Eidalwyr go iawn. Bu i dân ddifa'r Queen's Palace yn 1907 a chaewyd y twneli. Ond efallai bod Little Venice yn parhau i oroesi.



## 1 Little Venice

**Head east past the cinema to The Village with its rides, cafés and Tourist Information Centre.**

Somewhere underneath the buildings to your right on West Parade lurks Rhyl's biggest mystery. This was once the magnificent Queen's Palace with its theatre, glass dome, zoo, shopping arcade, tropical roof garden and ballroom big enough for 2,000 couples. Underneath was a flooded basement or, more romantically, a "Little Venice" with gondolas floating on real canals – steered by real Italians. A fire decimated the Queen's Palace in 1907 and the tunnels were sealed off. But maybe, just maybe, Little Venice survives.

## 2 Yr Awyrennwr Vivian Hewitt

**Croeswch y bont droed a pharhau nes i chi gyrraedd Arena Digwyddiadau'r Rhyl ar y chwith.**

Dyma un o'r mannau ffafriol gorau ar gyfer Sioe Awyr y Rhyl, gyda dros 140,000 o bobl yn tyrru i'r promenâd dros benwythnos Gŵyl y Banc ym mis Awst. Ond mae hanes awyrennau yn y dref yn dyddio'n ôl bron i ganrif cyn cynnal y sioe awyr gyntaf. Ar 21 Ebrill 1912 hedfanodd yr awyrennwr Vivian Hewitt o draeth y Rhyl mewn awyren Bleriot wedi'i hadeiladu o bren, gwifrau a chynfas. Ar ôl ail-lenwi'r awyren â phetrol yng Nghaergybi glaniodd yn ddiogel yn Nulyn fel y dyn cyntaf i hedfan dros Fôr Iwerddon. Byddai ei lwyddiant yn fwy adnabyddus pe na bai wedi digwydd yn fuan ar ôl i'r Titanic suddo.



## 2 Aviator Vivian Hewitt

**Cross the footbridge and continue until you reach Rhyl Events Arena on the left.**

This is one of the best vantage points for the spectacular Rhyl Air Show, when 140,000 people pack the promenade over the August Bank Holiday weekend. But the town's place in aviation history stretches back nearly a century before the show first took to the skies. On 21st April 1912 aviator Vivian Hewitt took off from Rhyl beach in a Bleriot monoplane built of wood, wire and canvas. After refuelling at Holyhead he landed safely in Dublin as the first man to fly across the Irish Sea. His achievement would surely be more famous if it hadn't come shortly after the sinking of the Titanic.

## 3 Eglwysi'r Drindod Sanctaidd a Sant Thomas

**Croeswch East Parade yn y gylchfan a mynd i lawr Stryd y Baddon gyda'i hadeiladau Fictoraidd hardd.**

Dim ond pentref oedd y Rhyl nes i'r rheilffordd gyrraedd yn 1848. Yn fuan wedi hynny daeth tyrfaoedd o dwristiaid i chwilio am antur – a dechreuodd y ffyniant adeiladu. Gorffennwyd Eglwys Sant Thomas, adeilad Gothig Fictoraidd anhygoel gan y pensaer George Gilbert Scott, yn 1867. Nesaf i'r eglwys mae eglwys lai'r Drindod Sanctaidd, a adeiladwyd yn 1835 ond a oedd yn rhy fach o fewn cenhedlaeth oherwydd twf yr ardal fel cyrchfan gwyliau. Er gwaethaf presenoldeb ei frawd mawr gerllaw, dyma eglwys y plwyf hyd heddiw.



## 3 Churches of Holy Trinity and St Thomas

**Cross East Parade at the roundabout and head down Bath Street with its fine Victorian buildings.**

Rhyl was just a village until the arrival of the railway in 1848. Suddenly it was besieged by tourists eager for adventure – and a building boom began. St Thomas's Church, a soaring piece of High Victorian Gothic by architect George Gilbert Scott, was finished in 1867. Next door is the much smaller Church of Holy Trinity, built in 1835 but outgrown within a generation by the rapidly expanding holiday resort. Despite the looming presence of its big brother, it's still the parish church.

## 4 Amgueddfa'r Rhyl

**Mae'r amgueddfa a'r oriel gelf y tu mewn i Lyfrgell y Rhyl ar y dde.**

I fyny'r grisiau yn yr amgueddfa gallwch grwydro ar hyd pier Edwardaidd a chael cip i mewn i giosgau sy'n llawn gwrthrychau hardd a rhyfedd megis gwregysau achub, cadeiriau baddon a gwisg nofio o gyfnod anterth yr ardal. Mae'n fan gwych i ddysgu mwy am yr unigolion a luniodd y Rhyl a Phrestatyn gerllaw, o wneuthurwyr y baddonau Rhufeinig i arloeswyr cynnar y sinema. Ac mae'n rhad ac am ddim.

sirddinbych.gov.uk/treftadaeth

**Ewch i mewn i Ganolfan Siopa'r Rhosyn Gwyn. Trowch i'r chwith ac yna i'r dde a dod allan i'r Stryd Fawr.**



## 4 Rhyl Museum

**The museum and art gallery are inside Rhyl Library on your right.**

Upstairs in the museum you can stroll down an imaginary Edwardian pier and peek into kiosks filled with all sorts of weird and wonderful objects such as lifebelts, bath chairs and swimming costumes from the heyday of the resort. It's a great place to discover more about the personalities who shaped Rhyl and nearby Prestatyn, from Roman bathers to early cinema pioneers. And it's completely free.

denbighshire.gov.uk/heritage

**Enter White Rose Shopping centre. Turn left and then right to emerge in the High Street.**

## 5 Neuadd y Dref

**Chwiliwch am yr hen Neuadd Ddawns Dansette, uwchben Burton's, lle y perfformiodd y Beatles unwaith, cyn troi i'r dde i Stryd y Farchnad.**


Agorwyd Neuadd y Dref gyda gorymdaith ar hyd y stryd a chân yr utgyrn yn 1876 – a hynny'n gwbl haeddiannol hefyd. Mae'n enghraifft wych o bensaernïaeth ddinesig hyderus yn arddull Gothig Ffrainc. Y tu mewn roedd swyddfeydd clerc y dref a'r syrfëwr, gorsaf dân, cegin gawl, banc, cyfnewidfa ŷd a swyddfa arwerthwr. Os nad oedd hyn oll yn ddigon, cafwyd estyniad yn 1907 ar gyfer llyfrgell a ariannwyd gan y dyngarwr Andrew Carnegie, a oedd hefyd yn gyfrifol am y Carnegie Hall yn Efrog Newydd.



## 5 Town Hall

**Look out for the former Dansette Ballrooom above Burton's, where The Beatles once played, before turning right into Market Street.**

The Town Hall was opened with a street parade and flourish of trumpets in 1876 – and quite right too. It's a splendid example of confident civic architecture in the French Gothic style. Inside were offices for the town clerk and surveyor, a fire station, a soup kitchen, a bank, corn exchange and auctioneer's office. If all this wasn't enough, it was extended in 1907 to fit in a library funded by philanthropist Andrew Carnegie, also responsible for Carnegie Hall in New York.




darganfodsirddinbych.co.uk discoverdenbighshire.co.uk

## Tra eich bod yn cerdded....

Cofiwch am y criw o chwech o fad achub y Rhyl a foddodd pan drodd eu cwch Gwylan-y-Môr yn 1853 dim ond tri chwarter milltir o'r lan. Gallwch weld eu cofeb gyferbyn â'r SeaQuarium.



## While you're walking....

Spare a thought for the six Rhyl lifeboat crew who drowned when their boat the Gwylan-y-Môr capsized in 1853 just three-quarters of a mile from shore. You'll find their memorial opposite SeaQuarium.

## 6 Marine Lake

**Ar gornel River Street fe welwch cyn Eglwys San Ioan, a adeiladwyd yn 1885 ar gyfer cynulleidfa oedd yn seiliedig yng Ngerddi'r Gaeaf gerllaw.**

Marine Lake y Rhyl, sy'n cysylltu â'r môr trwy un llifddor, yw'r unig lyn dŵr hallt yng Ngogledd Cymru. Gallwch ddilyn llwybr natur a threftadaeth o amgylch y llyn cyfan os dymunwch. Neu os yw hynny'n ormod i chi, gallwch deithio ar hen drên stêm ar y rheilffordd fach hynaf ym Mhrydain. Dathlwyd eu pen-blwydd yn 100 oed yn 2011 gan adeiladu Gorsaf Ganolog gydag amgueddfa ymarferol lle y gallwch esgus gyrru trên, tynnu liferi signal a chanu'r clychau. Pwy allai ddweud na i hynny?



## 6 Marine Lake

**On the corner of River Street you'll see the former Church of Saint John, built in 1885 for a congregation based at the nearby Winter Gardens.**

Rhyl Marine Lake, joined to the sea by a single sluice gate, is the only saltwater lake in North Wales. You can walk a nature and heritage trail all the way round if you like. Or if that sounds a bit too energetic, you could hop on a vintage steam locomotive to ride the oldest miniature railway in Britain. They celebrated their 100th birthday in 2011 by building a Central Station with hands-on museum where you can pretend to drive a train, pull signal levers and ring bells. Who could possibly resist?

## 7 Harbwr y Rhyl

Mae'r harbwr dros 700 mlwydd oed, wedi'i greu fel rhan o sianel dŵr dyfn i gyflenwi castell Edward I yn Rhuddlan. Ond mae pethau wedi newid cryn dipyn ers hynny. I ddechrau mae amddiffynfeydd arfordirol newydd, llithrfa, iard gychod a chei estynedig. Ond nid dyna fyddwch chi'n edrych arno yn awr mae'n debyg. Byddwch yn syllu ar fast 50 metr Pont y Ddraig. Mae'r strwythur eiconig hwn, sy'n agor ac yn cau fel blodyn metel enfawr i ganiatáu i gychod hwylio heibio, yn arwain at gaffi newydd yr harbwr gyda chanolfan wybodaeth Cysylltiadau Gwyrdd a siop llogi beiciau. Ond mae hefyd yn rhan o Lwybr Beicio Cenedlaethol 5 a Llwybr Arfordir Cymru.



## 7 Rhyl Harbour

The harbour is more than 700 years old, created as part of a deep-water channel to supply Edward I's castle at Rhuddlan. But things have changed a bit since then. For a start there are new coastal defences, a slipway, boatyard and an extended quay. But that's probably not what you're looking at just now. You'll be gazing at the 50-metre tall mast of Pont y Ddraig, or the dragon's bridge. This iconic structure, which opens and closes like a giant metal flower to allow boats to sail past, doesn't just lead to the new harbour café with its Green Links information hub and bike hire shop. It also carries both National Cycle Route 5 and the Wales Coast Path.

## 8 Trwyn Horton

**Ewch dros y bont, yna troi i'r dde ac yna i'r chwith ar unwaith ar draws y twyni tuag at y llwyfan wylio.**

Y pethau cynta'n gynta'. Mae ganddo siâp sy'n debyg i drwyn ac roedd yn eiddo i ddyn o'r enw Horton. A dyma pam fod y warchodfa natur hon, un o'r systemau twyni tywod olaf ar arfordir Gogledd Cymru, yn cael ei galw'n Drwyn Horton. Ewch am dro ar hyd y llwybr pren i gael golygfa hardd o arfordir y Rhyl a chyfle i chwilio am fywyd gwyllt gan gynnwys madfallod, ehedyddion, mulfrain a môr-wenoliaid pigddu. Yn anhygoel yn 1962 y fan a'r lle yma oedd cartref gwasanaeth hofrenfad gyntaf y byd, yn uno'r Rhyl â Wallasey.



## 8 Horton's Nose

**Cross the bridge, then turn right and quickly left across the dunes towards the viewing platform.**

First things first. It's shaped a bit like a nose and it belonged to a chap called Horton. Which is why this nature reserve, one of the last sand dune systems on the North Wales coast, is called Horton's Nose. Take a stroll along the wooden boardwalk for a wonderful view of Rhyl's seafront and the chance to spot wildlife including lizards, skylarks, cormorants and sandwich terns. Incredibly in 1962 this tranquil spot was home to the world's first hovercraft service, joining Rhyl and Wallasey.

## 9 Y Parc Drifft

**Ewch yn ôl dros y bont a cherdded ar hyd Rhodfa'r Gorllewin, gan gadw i'r chwith ger y Parc Drifft i ddilyn glan y môr.**

Nid yw'n bosibl methu'r Parc Drifft. Cerddwch tuag at y tyrrau 14 metr o uchder o lechi, pren a chopr sy'n amddiffyn y parc teuluol hwn gyda phum parth cysgodol ar wahân. Yn gyntaf byddwch yn cyrraedd yr ardd naturiol, yna man chwarae'r plant. Mae cwrs golff bychan yn arwain at theatr awyr agored gyda'r arddangosfa o deils cerameg "Cardiau Post o'r Rhyl". Yn olaf mae pwll padlo enfawr gyda chwythelli dŵr. A rhag ofn bod gennych awydd arddangos eich sgiliau, mae parc sglefyrddio nesaf iddo hefyd.



## 9 Drift Park

**Recross the bridge and walk along West Parade, bearing left near the Drift Park to follow the seafront.**

You can't miss the Drift Park. Just head towards the 14-metre tall beacons of slate, timber and copper that guard this ambitious family park with five separate sheltered zones. First you'll reach the natural garden, then the children's play area. A mini golf course gives way to an open-air theatre with its "Postcards from Rhyl" display of ceramic tiles. Finally there's a huge paddling pool complete with water jets. And just in case you fancy throwing a few kickflips, there's a skate park next door.

## 10 Llongddrylliad Resurgam

Wedi'i ysgythru ar y wal rhwng y theatr awyr agored a'r cwrs golff mae delwedd ddychmygol o'r Rhyl yn yr oes a fu. Yn hedfan yn uchel uwchben y dref gwelir awyren Vivian Hewitt (gweler rhif 2) ac oddi tano mae cwch o ryw fath i'w weld yn y tonnau. Dyma Resurgam, un o longau tanfor â phŵer cynharaf y byd a chreadigaeth y clerigwr ecsentrig y Parchedig George Garrett. Wedi'i hadeiladu ym Mhenbedw yn 1879, suddodd ei gwch danfor oedd yn cael ei phweru â stêm yn fuan ar ôl gadael y Rhyl i fynd i Portsmouth. Canfuwyd y llongddrylliad bum milltir oddi ar y lân gan ddeifiwr lleol yn 1995. Ond hyd yn hyn nid yw enw'r fad, "Fe ddyrchafaf eto" yn Lladin, wedi bod yn broffwydol hyd yma.



## 10 Wreck of the Resurgam

Etched into the wall between the open-air theatre and the mini golf course is an imaginary scene of bygone Rhyl. Flying high above the town is the plane of Vivian Hewitt (see number 2) while beneath the waves a curious craft is visible. This is the Resurgam, one of the world's earliest powered submarines and brainchild of eccentric clergyman Reverend George Garrett. Built in Birkenhead in 1879, his steam-powered submersible sank while under tow shortly after leaving Rhyl for Portsmouth. The wreck was discovered five miles offshore by a local diver in 1995. But so far the craft's name, Latin for "I shall rise again", has not proved prophetic.